

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC

Ydych chi'n barod?

Rhestr Wirio i ddarpar ganolfannau arholiadau neu i'w defnyddio mewn achosion lle mae cyfeiriad neu drefniadau storio diogel canolfan wedi newid

Mae'n **rhaidd** i ganolfannau arholiadau sicrhau eu bod yn dychwelyd copi wedi'i gwblhau o'r rhestr wirio hon naill ai i'r corff dyfarnu y mae'n ceisio cymeradwyaeth ganddo, neu i'r Tîm Cofrestr Rhifau Canolfannau Cenedlaethol ar ôl eu hysbysu bod cyfeiriad neu drefniadau storio diogel y ganolfan yn newid.

Dim ond ar ôl derbyn y ffurflen wedi'i chwblhau y bydd arolygiad yn digwydd.

Os yw eich ateb i gwestiwn yn awgrymu nad ydych eto yn barod fel darpar ganolfan arholi, **rhaidd** i chi geisio cyngor gan y corff dyfarnu perthnasol.

Noder os gwelwch yn dda na fydd deunyddiau cyfrinachol fel papurau cwestiynau yn cael eu hanfon i'r ganolfan tan ar ôl i arolygiad boddhaol ddigwydd.

Os bydd arolwg arall yn angenrheidiol yng ngoleuni gwybodaeth anghywir sy'n cael ei chyflwyno, mae'r cyrff dyfarnu yn cadw'r hawl i godi ffi.

Gofynion Cyffredinol	Mae'r ganolfan yn barod	Nid yw'r ganolfan yn barod
A yw'r ganolfan yn deall y cyhoeddiad CGC <i>Rheoliadau Cyffredinol i Ganolfannau Cymeradwyedig</i> yn llawn, ac yn barod i gadw ato?	Ydy	Nac ydy
A yw'r ganolfan yn deall y cyhoeddiad CGC <i>Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau</i> yn llawn, ac yn barod i gadw ato?	Ydy	Nac ydy
A yw'r ganolfan yn deall y cyhoeddiadau CGC canlynol yn llawn, ac yn barod i gadw atynt? <ul style="list-style-type: none"> <i>Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol</i> <i>Cyfarwyddiadau ar Gynnal Gwaith Cwrs</i> <i>Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad</i> <i>Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau</i> 	Ydy	Nac ydy
Oes gennych gyfeiriad busnes penodol gyda swyddfa a derbynfa y bydd staff yn gweithio ynddynt yn barhaol rhwng 8.30 am a 3.30 pm yn ystod y tymor?	Oes	Nac oes
A fydd y ganolfan ar agor a staff ar gael ar gyfer ymweliad arolygu yn y ddwy i bedair wythnos nesaf?	Bydd	Na fydd
Ydych chi'n gwneud cais am gymeradwyaeth canolfan dim mwy na phum mis cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru am y gyfres arholiadau gyntaf?	Ydyn	Nac ydyn
A yw trefniadau storio diogel yn y ganolfan wedi'u sefydlu'n barod?	Ydyn	Nac ydyn
Oes cwpwrdd diogel/saff yn ei le?	Oes	Nac oes

Gofynion cyffredinol (parhad)	Mae'r ganolfan yn barod	Nid yw'r ganolfan yn barod
Ydych chi wedi penderfynu ar drefniadau priodol er mwyn derbyn a storio deunyddiau cyfrinachol a anfonir gan gorff dyfarnu?	Ydyn	Nac ydyn
Oes gennych ddigon o le addas yn eich canolfan i ymgeiswyr sefyll arholiadau ysgrifenedig a, lle bo'n briodol, cyfleusterau ar gyfer profion ar-sgrin?	Oes	Nac oes
Lle bo'n briodol, oes gennych chi'r cyfleusterau angenrheidiol i gynnal unrhyw arholiadau ymarferol, e.e. cyfleusterau labordy?	Oes	Nac oes
Ydych chi wedi enwi aelod o staff fydd yn gweithredu fel y swyddog arholiadau? (ni ddylid enwi pennaeth y ganolfan)	Ydyn	Nac ydyn
Ydych chi wedi enwi aelod o staff fydd yn gweithredu fel y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig?	Ydyn	Nac ydyn
Oes gennych drefniadau ar waith i asesu ymgeiswyr y gallai fod angen trefniadau mynediad arnynt, h.y. aseswr a gymeradwywyd gan bennaeth y ganolfan ?	Oes	Nac oes
Oes gennych fynediad rhyngrwyd band llydan er mwyn hwyluso trafodion electronig â'r cyrff dyfarnu?	Oes	Nac oes
Oes gennych gyfeiriad e-bost swyddogol i'r ganolfan? (Gweler adran 5.3, tudalen 9)	Oes	Nac oes
Oes gennych chi bolisi amddiffyn plant/diogelu ysgrifenedig ?	Oes	Nac oes
Oes gennych chi weithdrefn cwynion ac apeliadau ysgrifenedig ?	Oes	Nac oes
Oes gennych chi bolisi diogelu data ysgrifenedig ?	Oes	Nac oes
Oes gennych chi gynllun arholiadau wrth gefn ysgrifenedig ?	Oes	Nac oes
Oes gennych chi weithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig ?	Oes	Nac oes
Oes gennych chi bolisi ysgrifenedig o ran rheoli asesiadau di-arholiad TAG a TGAU? (Ar gyfer canolfannau TGAU CCEA, polisi ysgrifenedig yn ymwneud ag asesiadau dan reolaeth fyddai hwn.)	Oes	Nac oes
Oes gennych chi bolisi anabledd ysgrifenedig yn dangos eich bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010? †	Oes	Nac oes
Lleoli'r uned storio ddiogel‡	Mae'r ganolfan yn barod	Nid yw'r ganolfan yn barod
A yw'r uned storio ddiogel mewn man sy'n benodol ar gyfer arholiadau'n unig? (Fel yn tudalennau 4-6 y CGC <i>Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau</i>).	Ydy	Nac ydy
A yw'r uned storio ddiogel wedi'i lleoli yng nghyfeiriad eich canolfan ymrestredig arfaethedig?	Ydy	Nac ydy
Oes gan leoliad yr uned storio ddiogel waliau solet neu barwydydd wedi'u hatgyfnerthu?	Oes	Nac oes
Os yw'r uned storio ddiogel wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod a chanddi ffenestri, a osodwyd bariau neu a oes larwm ar yr ystafell (larymau synhwyrdd ar bob ffenestr fyddai orau)?	Oes	Nac oes

A yw'r drws i leoliad yr uned storio ddiogel o adeiladwaith solet?	Ydy	Nac ydy
Lleoli'r uned storio ddiogel (parhad)	Mae'r ganolfan yn barod	Nid yw'r ganolfan yn barod
Oes clo diogelwch ar y drws (e.e. mortais pum lifer neu fysellbad)?	Oes	Nac oes
Oes dim mwy na phedwar deiliad allweddi/cod i leoliad yr uned storio ddiogel?	Oes	Nac oes
A yw'r uned storio ddiogel wedi'i lleoli mewn man sy'n cael ei rannu â staff nad ydynt yn rhan o'r swyddfa arholiadau?	Nac ydy	Ydy
Uned Storio Ddiogel	Mae'r ganolfan yn barod	Nid yw'r ganolfan yn barod
A fydd un o'r canlynol yn cael ei ddefnyddio i storio papurau cwestiynau: <ul style="list-style-type: none"> • Coffr cryf, nad oes modd ei symud; • Cwprdd diogelwch nad oes modd ei symud gyda system gloi aml-bwynt; • Gwprdd metel gyda bar cloi allanol hyd llawn, sydd wedi'i folltio i'r wal neu'r llawr; • Sgrin ddiogelwch fetel h.y. caead sy'n rholio i lawr, yn syth o flaen silffoedd agored. 	Bydd	Na fydd

†neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth berthnasol heblaw am Gymru a Lloegr y mae ei phwrpas a'i heffaith yn gyfwerth.